# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 28 Ebrill 2014** |
| Amser: | **14.30 – 16.25** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_28_04_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Melding AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Joyce Watson AC (yn lle Julie James AC)**<br>**Eluned Parrott AC**<br>**Simon Thomas AC** |
| Tystion: | **Kay Jenkins, Comisiwn Etholiadol**<br>**Stephen Brooks, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **P Gareth Williams (Clerc)**<br>**Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Alys Thomas (Ymchwilydd)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James AC.   Roedd Joyce Watson AC yn dirprwyo.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

2.1 CLA393 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) a Chytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2014

2.2 CLA394 – Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (Corff Cyfrifwyr Ewropeaidd Cymeradwy) 2014

2.3 CLA395 – Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014

Nododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon â hwy.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Gorchymyn Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (Anghymhwyso o'r Bwrdd Taliadau) 2014

Nododd y Pwyllgor y Gorchymyn.

3.2 Gohebiaeth yn ymwneud â CLA362 – Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2013

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

3.3 Gohebiaeth yn ymwneud â Bil Drafft Cymru

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

3.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Nododd y Pwyllgor y papur a chytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at y deisebydd i ofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i ymchwiliad y Pwyllgor i Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.5 CLA389 – Rheoliadau Addysg (benthyciadau myfyrwyr) (ad-dalu) (Diwygio) 2014

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

3.6 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Dadreoleiddio : Gwelliannau ynghylch Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, Deddf Bridio Cŵn 1973 a Deddf Bridio a Gwerthu Cŵn (Lles) 1999

Nododd y Pwyllgor y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol a'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiad. Cytunodd y Pwyllgor y gallai fod angen ymestyn y dyddiad cau i gyflwyno adroddiad oherwydd y ddau Wŷl Banc ym mis Mai.

3.7 Gohebiaeth gan Dŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ac adroddiad Tŷ'r Arglwyddi ar rôl Seneddau Cenedlaethol yn yr Undeb Ewropeaidd.

## 4 Tystiolaeth yn ymwneud â'r Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Kay Jenkins, Pennaeth Swyddfa Cymru, y Comisiwn Etholiadol, a Stephen Brooks, Cyfarwyddwr, y Gymdeithas Diwygio Etholiadol.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod yn breifat.

5.1 Adroddiad drafft ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch Dadreoleiddio.